

NEWYDDLEN

DEMOGRAFFEG

Llywodraeth Cymru, Chwefror 2018




YMCHWIL I BYNCIAU CYFRIFIAD 2021

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i ymchwilio i'r pynciau canlynol ar gyfer Cyfrifiad 2021:

- statws priodasol a phartneriaeth gyfreithiol
- perthynas pobl sy'n rhannu aelwyd a pherthynas deuluol
- math o wres canolog
- y brif iaith y mae pobl yn ei defnyddio
- cymwysterau
- gweithgarwch economaidd
- y flwyddyn ddiwethaf a weithiwyd
- a oes gan bobl rôl oruchwylio.

Nid oes unrhyw gynlluniau i gynnwys cwestiynau ar incwm.


Mae mwy o fanylion am yr ymchwiliad i bynciau cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'w gweld [yma](#).



MUDO RHYNGWLADOL HIRDYMROR

Ar 30 Tachwedd 2017, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [yr Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#). Mae'r gyfres o adroddiadau chwarterol yn dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU, Adran Gwaith a Phensiynau y DU, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae amcangyfrifon [yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) ar gyfer mudo rhyngwladol hirdymor (hynny yw, dros 12 mis) yn dangos, ar gyfer Cymru yn 2016, bod 21,000 wedi mewnfudo ac 8,000 wedi gadael.



AMCANGYFRIFON POBLOGAETH CANOL BLWYDDYN

Cyhoeddwyd [amcangyfrifon canol blwyddyn 2016](#) ar gyfer poblogaeth gwledydd y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2017.

Yr amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth Cymru yn 2016 oedd 3,113,200.

Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru (635,000) na phlant 0 i 15 oed (557,000).

Amcangyfrif canol-blwyddyn 2016 o boblogaeth y DU oedd 65,648,000; cynnydd o 0.8 y cant o gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer canol 2015 (mae'r gyfradd dyfu hon yn debyg i'r gyfradd dyfu gyfartalog flynyddol ers 2005). Roedd y twf a welwyd yn y boblogaeth yn ystod y flwyddyn yn amrywio ledled y DU: yng Nghymru roedd yn 0.5 y cant, yn Lloegr 0.9 y cant, yn yr Alban 0.6 y cant, ac yng Ngogledd Iwerddon 0.6 y cant.

Ar hyn o bryd, mae Calendr y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi Mehefin 2018 fel dyddiad rhyddhau *Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2017*.



AMCANESTYNIADAU O BOBLOGAETH Y WLAD

Cyhoeddwyd y bwletin ystadegol ar amcanestyniadau o boblogaeth y wlad ([National Population Projections, 2016-based](#)) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 26 Hydref 2017.

Roedd yn dangos y canlynol am Gymru:

- Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu 3.1 y cant i 3.21 miliwn erbyn 2026, a 4.6 y cant i 3.26 miliwn erbyn 2041.
- Disgwylir i nifer y plant sydd o dan 16 oed gynyddu

i 568,000 erbyn 2026 cyn gostwng rhwng 2026 a 2041,

ac y bydd 549,000 ohonynt yn 2041. Ar y cyfan, mae disgwyl i nifer y plant ostwng 1.5 y cant rhwng 2016 a 2041.

- Disgwylir i nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed ostwng 81,000 (4.2 y cant) rhwng 2016 a 2041.
- Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu 232,000 (36.6 y cant) rhwng 2016 a 2041.

YSTADEGAU ETHOLIADOL

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gohirio cyhoeddi ystadegau etholiadol 2017 o 28 Chwefror tan 22 Mawrth 2018.

Ar 24 Chwefror 2016, cyhoeddodd y Swyddfa ddau dabl o ystadegau etholiadol y DU ([UK Electoral Statistics](#)) sy'n adlewyrchu nifer yr etholwyr a gofrestrwyd i bleidleisio yn y DU ar 1 Rhagfyr 2015.



Mae'r data ar gyfer ardaloedd etholaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u cyhoeddi ar [StatsCymru](#).



AROLWG CENEDLAETHOL CYMRU

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn astudiaeth o fwy na 10,000 o oedolion ledled Cymru. Mae'r prif ganlyniadau a chanlyniadau manylach wedi'u cyhoeddi [yma](#).

Mae'r ffigurau diweddaraf yn seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017.

Ar 30 Ionawr 2018 cyhoeddwyd y bwletin ystadegol *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Gofal Plant*.

Rhyddhaodd Edge Analytics fersiwn newydd o POPGROUP (fersiwn 4.1) ar 30 Ionawr 2018.

Mae'r fersiwn newydd yn cynnwys cyfleuster sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi data mudo yn ôl oed a rhyw, ac mae modd defnyddio rhagdybiaethau mudo gwahanol i lunio amcanestyniadau.

Cysylltu

Ffôn: 0300 025 5050; E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

